OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3183

# Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2002

**Dull asesu ansawdd aer amgylchynol**

**8.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod ansawdd yr aer amgylchynol yn cael ei hasesu ym mhob parth drwy ddilyn y dull penodedig ar gyfer pob llygryn perthnasol yn unol â'i ddosbarthiad cyfredol.

(2) Os oes parth wedi'i ddosbarthu o dan reoliad 6(1)(a) neu (b) mewn perthynas â llygryn perthnasol—

(a) rhaid i fesuriadau'r llygryn hwnnw gael eu cymryd ar safleoedd sefydlog naill ai'n ddi-dor neu drwy samplu ar hap; a

(b) rhaid i nifer y mesuriadau fod yn ddigon mawr i ganiatáu darganfod lefelau'r llygryn hwnnw yn gywir.

(3) Bydd Atodlen 3 yn effeithiol er mwyn penderfynu ar leoliad y pwyntiau samplu ar gyfer y llygrynnau perthnasol.

(4) Ar gyfer pob parth sydd wedi'i ddosbarthu o dan reoliad 6(1)(a), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau, mewn perthynas â llygryn perthnasol, fod isafswm nifer y pwyntiau samplu sefydlog y penderfynwyd arnynt yn unol ag Atodlen 4 yn cael ei ddefnyddio i samplu crynodiadau'r llygryn hwnnw yn y parth hwnnw.

(5) Ar gyfer pob parth sydd wedi'i ddosbarthu o dan reoliad 6(1)(b), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau, mewn perthynas â llygryn perthnasol, fod nifer y pwyntiau samplu sefydlog a ddefnyddir i samplu'r llygryn hwnnw yn y parth hwnnw, a dosbarthiad y technegau eraill o ran eu lleoliad, yn ddigon i ganfod crynodiadau'r llygryn hwnnw yn unol â Rhan I o Atodlen 3 a Rhan I o Atodlen 5.

(6) Nodir dulliau cyfeirio ar gyfer—

(a) dadansoddi sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocisdau nitrogen;

(b) samplu a dadansoddi plwm;

(c) samplu a mesur $PM_{10}$;

(ch) samplu a dadansoddi bensen; a

(d) dadansoddi carbon monocsid

yn Atodlen 6, a rhaid i'r dulliau hyn gael eu defnyddio oni bai bod dulliau eraill yn cael eu defnyddio y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu bod modd dangos eu bod yn rhoi canlyniadau cyfwerth.

(7) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod gorsafoedd mesur i roi data cynrychioliadol ar grynodiadau $PM_{2.5}$ wedi'u gosod ac yn cael eu gweithredu, gan ddefnyddio unrhyw ddull ar gyfer samplu a mesur $PM_{2.5}$ y mae'n credu ei fod yn addas, a bod pwyntiau samplu $PM_{2.5}$ yn cael eu cyd-leoli â phwyntiau samplu $PM_{10}$ lle bynnag y bo modd.

(8) Ar gyfer parthau sydd wedi'u dosbarthu o dan reoliad 6(1)(b) neu (c), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod yr wybodaeth a nodir yn Rhan II o Atodlen 5 yn cael ei chrynhoi.

(9) Ar gyfer sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid, ocsidau nitrogen, bensen a charbon monocsid rhaid i'r cyfaint gael eu safoni ar dymheredd o 293°K a mesuriadau phwysedd o 101.3 kPa.